CYLCHLYTHYR CYMORTH CYNLLUNIO CYMRU

MEDI 2008

Cystadleuaeth: enwch ein cylchlythyr

Croeso i e-gylchlythyr Cymorth Cynllunio Cymru ar gyfer ein partneriaid, cleientiaid a chyfeillion. Bwriadwn ei gyhoeddi bob yn dri neu bedwar mis o hyn allan er mwyn dod â'r newyddion diweddaraf am ein gwaith i chi.

Ond mae dal eisiau teitl ar y cylchlythyr, felly dyma ni'n cynnal cystadleuaeth bach i gael hyd i enw addas. Bydd y sawl sy'n meddwl am yr enw gorau yn ennill llawlyfr am y system gynllunio yng Nghymru a mynediad am ddim i ddau yn ein noson gwis nesaf, a fydd yn digwydd yn hwyrach eleni yng Nghaerdydd.

Yn ddelfrydol mae naill ai eisiau teitl Cymraeg ac un Saesneg, neu well byth deitl sy'n gweithio yn y ddwy iaith. Anfonwch eich syniadau at **marika@cymorthcynlluniocymru.org.uk** erbyn 31 Hydref. Mae croeso i chi anfon mwy nag un syniad.

Gwefan newydd sy'n esbonio'r system gynllunio

Mae gan Gymorth Cynllunio Cymru wefan newydd gyffrous sy'n llawn o wybodaeth am y system gynllunio yng Nghymru. Mae'n esbonio prif elfennau'r system gynllunio defnydd tir mewn iaith blaen ac yn egluro sut gall y cyhoedd gymryd rhan mewn materion cynllunio.

Gallwch hefyd lawrlwytho nifer o daflenni a llyfrynnau sy'n rhoi gwybodaeth fwy manwl ar agweddau arbennig o'r system gynllunio. Mae dolenni yn eich arwain at ffynonellau eraill o wybodaeth bellach ar-lein, fel y gallwch gael hyd i'r holl wybodaeth sy ei hangen ar gyfer eich ymgyrch gymunedol. Ceir rhestr dermau gynhwysfawr, sy'n esbonio termau arbenigol mewn iaith glir a syml. A rhag ofn eich bod yn dal heb ffeindio beth rydych am wybod, cewch yno hefyd fanylion cyswllt Cymorth Cynllunio Cymru a mudiadau eraill a all helpu yn bellach.

Bydd y wefan newydd, sy ar gael ar **www.cymorthcynlluniocymru.org.uk**, yn tyfu dros y misoedd a blynyddoedd i ddod.

Dwedwch eich dweud ar ddyfodol eich cymuned

Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Gwynedd, Powys a Sir y Fflint i gychwyn gwaith ar eu Cynlluniau Datblygu Lleol

Angen mwy o dai fforddiadwy yn eich cymuned? Pryderi am ddyfodol siop y pentref? Breuddwydio am gynhyrchu ynni'ch hunan? Fe ddylech roi eich pig i mewn i'ch Cynllun Datblygu Lleol felly.

Dogfennau polisi yw Cynlluniau Datblygu Lleol sy'n gosod allan sut bydd tir yn cael ei ddefnyddio dros y 15 mlynedd nesaf. Mae rhaid i bob awdurdod lleol a phob awdurdod parc cenedlaethol baratoi un ar gyfer ei ardal yn y dyfodol agos, ac mae rhai yn gweithio arno yn barod.

Gall y polisïau yn y Cynllun Datblygu Lleol fod o bwys eithriadol ar gyfer llawer o amcanion pob dydd sy gan eich cymuned. Gallan nhw er enghraifft gwneud hi'n hawdd neu'n anodd cael caniatâd i droi siop wledig yn dŷ. Neu gwneud hi'n hawdd neu'n anodd gosod dyfeisiau ynni adnewyddol. Maen nhw'n gwneud penderfyniadau am faint o dai newydd all cael eu hadeiladu mewn ardal, a gall fod ofyn i dai newydd fod ar gyfer pobl leol yn unig.

Y peth da am y Cynlluniau Datblygu Lleol newydd yw bod rhaid i'r awdurdod cynllunio 'gynnwys' y gymuned wrth eu llunio - ac mae 'cynnwys' yn golygu mwy na'r ymgynghori traddodiadol. Dyma'ch cyfle chi i gael syniadau'ch grŵp o beth ddylai ddigwydd yn eich bro wedi'u cynnwys yn y cynllun. Cynharaf oll cymerwch ran, mwyaf tebyg ydych o gael dylanwad.

Bydd cynghorau **Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Gwynedd, Powys a Sir y Fflint** yn dechrau gwaith ar eu Cynlluniau Datblygu Lleol o fewn y misoedd nesaf. Mae **Casnewydd a Sir Gaerfyrddin** hefyd yn dal mewn rhan gynnar o'r broses. Cadwch eich llygaid ar agor, neu well fyth cysylltwch â'ch adran gynllunio a dwedwch eich bod am gyfrannu. Mi fyddan nhw'n falch o glywed gynnoch chi.

Mae'r awdurdodau cynllunio lleol eraill eisoes wedi symud ymlaen yn bellach, ond mae'n dal werth cymryd rhan.

Os ydych am wybod mwy, mae modd i chi archebu llyfryn rhad oddi wrth Lywodraeth y Cynulliad drwy ffonio **029 20898688** neu e-bostio **assembly-publications@wales.gsi.gov.uk**. Gallwch hefyd weld y llyfryn a rhagor o wybodaeth ar **www.cymorthcynlluniocymru.org.uk/aboutplanning/localpolicy**.

Am gyngor rhad ar y ffordd orau o gymryd rhan, cysylltwch â Chymorth Cynllunio Cymru ar **02920 485765** neu **post@cymorthcynlluniocymru.org.uk**.

Hyfforddiant a chefnogaeth cynllunio wedi'u teilwra ar gyfer grwpiau cymunedol

Amcan Cymorth Cynllunio Cymru yw meithrin gallu cymunedau i gymryd rhan yn effeithiol yn y system gynllunio. Os ydych chi'n aelod o grŵp gwirfoddol neu gymunedol sydd am ddysgu mwy am sut i roi llais i'ch cymuned ar benderfyniadau ynghylch eich hardal leol, gallwn helpu trefnu sgyrsiau, seminarau a digwyddiadau eraill ar gyfer eich grŵp.

Gall eich grŵp wahodd Cymorth Cynllunio Cymru i gynnal digwyddiad hyfforddi ar gyfer eich anghenion penodol. Chi fydd yn dewis y pwnc rydych am ddysgu amdano ynghyd â hyd a fformat y sesiwn, a all fod mor ffurfiol neu anffurfiol ag y dymunwch. Fel arfer codir tâl am y gwasanaeth yma, ond mae gostyngiadau ar gael i grwpiau gydag arian cyfyngedig.

Wrth i'ch grŵp gymryd rhan mewn cynllunio, gallwn roi cyngor a chefnogaeth i chi os ydych yn ei gweld yn anodd deall y broses ac i sicrhau y clywir eich llais.

Gallwn hefyd roi cefnogaeth ychwanegol i weithgareddau eich grŵp, o fewnbwn gan arbenigwr cynllunio i help ymarferol wrth lunio gweledigaeth gymunedol.

Am ragor o fanylion ewch i **www.cymorthcynlluniocymru.org.uk/how-paw-can-help/training** neu cysylltwch â'n Gweithiwr Datblygu, Marika Fusser, ar **01286 882 834**.

Dowch yn wirfoddolwr cymunedol gyda Chymorth Cynllunio Cymru

Fel byddwch yn gwybod, mae Cymorth Cynllunio Cymru'n elusen sy'n gwneud llawer o'i waith drwy wirfoddolwyr. Tan yn ddiweddar roedd rhaid i chi fod â chymhwyster cydnabyddedig mewn cynllunio i wirfoddoli gyda ni, ond dim bellach! Nawr mae croeso i chi ymuno â ni fel 'gwirfoddolwr cymunedol'.

Bydd y gwirfoddolwyr cymunedol yn ymwneud a'r ochr fwyaf diddorol o'n gwaith, h.y. gweithio yn uniongyrchol gyda grwpiau cymunedol i feithrin eu gallu ac i'w helpu defnyddio'r system gynllunio er lles eu cymuned. Os oes gennych sgiliau hwyluso, dysgu neu gyfryngu, gallai hyn fod 'jyst y job' i chi.

Gallwch hefyd chwarae rhan yng nghynhyrchu ein cyhoeddiadau a deunyddiau dysgu, lle mae angen lleygwyr i helpu ni gael gwared ar jargon a gwneud deunyddiau'n ddealladwy. Rydym hefyd yn ddiolchgar am unrhyw gymorth gyda chyfieithu, prawfddarllen a darluniau.

Gall gwirfoddolwyr ddewis faint o amser maent am roi ac ym mha feysydd maent am weithio. Mae rhai yn fwriadol yn dewis meysydd na fuasent yn dod ar eu traws yn eu gwaith pob dydd, fel y gallant ehangu eu gorwelion. Os hoffech wybod mwy am wirfoddoli gyda Chymorth Cynllunio Cymru, gallwch gysylltu â'n cydlynydd gwirfoddolwyr, James Davies, ar **02920464225** neu **james@cymrothcynlluniocymru.org.uk**, neu ymwelwch â **www.cymorthcynlluniocymru.org.uk/volunteering**.

Astudiaeth achos

Cyflwyniad ymarferol i'r system gynllunio

Daeth y cmwni Cymunedau'n Gymtaf CwmNi yn Nhreherbert at Gymorth Cynllunio Cymru i weld a fedrem ddylunio a chynnal cyfres o weithdai hyfforddi gyda'r hwyr ar gyfer trigolion lleol yn ystod hydref 2007 a gwanwyn 2008. Roedd trigolion lleol Treherbert yn aml yn gofyn i CwmNi am gymorth ar ystod o faterion cynllunio, yn cynnwys ceisiadau cynllunio unigol a pholisïau cynllun datblygu.

Datblygodd Cymorth Cynllunio Cymru raglen o chwe gweithdy gyda phob un yn para tua dwy awr. Cyflwynwyd gwybodaeth eang cyd-destunol trwy ddefnyddio iaith oedd ddim yn dechnegol a thrwy ddefnyddio fformatau i annog cymryd rhan, gan gynnwys cwis cynllunio ac ymarfer chwarae rôl a ganiataodd i'r cyfranogwyr esgus bod yn gynllunwyr awdurdod lleol, datblygwyr ac aelodau o'r cyhoedd yn y broses o greu Cynllun Datblygu Lleol.

Er mwyn gwneud y cyfle dysgu hwn yn berthnasol a chymhwysol i amgylchiadau lleol, bu pob gweithdy'n edrych ar fater cynllunio 'byw', megis datblygiad o dai arfaethedig, gyda'r cyfranogwyr yn gweithio gyda'i gilydd i archwilio'r gwahanol ddulliau posibl o weithredu.

Mewn llythyr o ddiolch at Gymorth Cynllunio Cymru, dywedodd partneriaeth CwmNi:

'Roedd y sesiynau hyfforddi a ddarparwyd gan Gymorth Cynllunio Cymru yn llawn gwybodaeth ac yn ddiddorol iawn. Mae nifer o ddatblygiadau arfaethedig wedi'u cynllunio o fewn ein hardal ac mae trigolion Treherbert yn teimlo yr hoffent gael dealltwriaeth lawnach o'r broses gynllunio er mwyn bod yn ddeallus ynghylch datblygiad eu hamgylchedd leol. Darparwyd hyn mewn dull ardderchog gan Gymorth Cynllunio Cymru, trwy rannu'r broses datblygu, mewn dull hwyliog a hygyrch fel bo unrhyw un lleyg yn deall. Roedd pob un a gymerodd ran yn yr hyfforddiant wedi dysgu pethau gwerthfawr a pherthnasol i'w sefyllfaoedd cyfredol ac maent wedi gofyn am fwy o hyfforddiant yn yr ardal er mwyn i'w cyfeillion gymryd rhan. Diolch yn fawr iawn am eich holl help ac edrychwn ymlaen at weithio gyda chi eto yn y dyfodol.'

Cynnwys yr hyfforddiant:

1. Amlinelliad cyffredinol o'r system gynllunio defnydd tir yng Nghymru
2. Deall proses y cynllun datblygu lleol
3. Deall proses cais cynllunio
4. Mater lleol penodol a'r dulliau posibl o weithredu
5. Ble i fynd am fwy o gymorth

Digwyddiadau

2 Medi 2008, Penybont-ar-Ogwr
Hyfforddiant arbennig ar y broses gynllunio i Gyngor Cymuned Bracla

11 Medi 2008, Treherbert
Sesiwn hyfforddi ar y drefn gynllunio ar gyfer safleoedd datblygu strategol i CwmNi

11 Hydref 2008, Ponrhydfendigaid
Cynhadledd Flynyddol Un Llais Cymru. Bydd Cymorth Cynllunio Cymru yn dod â stondin gyda chyhoeddiadau a gwybodaeth. Am fanylion am y gynhadledd ffoniwch Un Llais Cymru ar 01269 595400.

22 Hydref 2008, Prifysgol Caerdydd
Sgwrs i fyfyrwyr ôl-radd ar y sector wirfoddol mewn cynllunio.

Cysylltu â Chymorth Cynllunio Cymru

Llinell Gymorth: 02920 45765

Gwefan: www.cymorthcynlluniocymru.org.uk

Prif swyddfa

Cymorth Cynllunio Cymru, Siambrau'r Bae, Stryd Gorllewin Bute, Caerdydd CF10 5BB

Ffôn: 02920 464 225

Ebost: post@cymorthcynlluniocymru.org.uk

Staff Cymorth Cynllunio Cymru

Elwyn Thomas
Prif Weithredwr
Ffôn: 02920 464 225
Ebost: elwyn@cymorthcynlluniocymru.org.uk

Marika Fusser
Gweithiwr Datblygu'r Gogledd
Ffôn: 01286 882 834
Ebost: marika@cymorthcynlluniocymru.org.uk

James Davies
Cynlluniwr a Rheolwr Achos
Ffôn: 02920 464 205
Ebost: james@cymorthcynlluniocymru.org.uk

Sue Saunders
Gweinyddydd
Ffôn: 0290 464 225
Ebost: susan@cymorthcynlluniocymru.org.uk

Cymorth Cynllunio Cymru - Gweithio tuag at system gynllunio fwy teg